# Agenda - Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledd drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Iau, 23 Ionawr 2025

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Marc Wyn Jones**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddHinsawdd@senedd.cymru

## Hybrid

**Yn ei gyfarfod ar 8 Ionawr 2025, cytunodd y Pwyllgor ar gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd o ddechrau'r cyfarfod heddiw.**

**Cyfarfod preifat** (09.15-10.15)

1 **Craffu Cyfnod 1 ar y Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) - Briff technegol**
(09.30-10.15)

**Egwyl** (10.15-10.30)

**Cyfarfod cyhoeddus** (10.30-12.30)

2 **Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(10.30)

## 3 Craffu blynyddol ar waith Trafnidiaeth Cymru

(10.30-11.30) (Tudalennau 1 - 31)

James Price, Prif Weithredwr - Trafnidiaeth Cymru

Jan Chaudhry-Van Der Velde, Prif Swyddog Gweithrediadau - Trafnidiaeth Cymru

Heather Clash, Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol - Trafnidiaeth Cymru

**Dogfennau atodol:**

Briff ymchwil - Craffu blynyddol ar waith Trafnidiaeth Cymru

Papur - Trafnidiaeth Cymru

## Egwyl (11.30-11.40)

**Craffu blynyddol ar waith Trafnidiaeth Cymru - parhau**

(11.40-12.30)

James Price, Prif Weithredwr - Trafnidiaeth Cymru

Jan Chaudhry-Van Der Velde, Prif Swyddog Gweithrediadau - Trafnidiaeth Cymru

Heather Clash, Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol - Trafnidiaeth Cymru

## 4 Papurau i'w nodi (12.30)

### 4.1 Atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030

(Tudalen 32)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd Cymdeithas Ddinesig Caerdydd at y Cadeirydd mewn perthynas â gwarchod a gwella bioamrywiaeth (Saesneg yn unig)

### 4.2 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

(Tudalennau 33 - 35)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd mewn perthynas â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2025

**4.3 Cau Porthladd Caergybi Dros Dro**

(Tudalennau 36 - 37)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru mewn perthynas â chau Porthladd Caergybi dros dro.

**4.4 Craffu ar waith Cyfoeth Naturiol Cymru**

(Tudalennau 38 - 40)

**Dogfennau atodol:**

Y wybodaeth ddiweddaraf gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn perthynas ag adroddiad y Pwyllgor: Cyfoeth Naturiol Cymru - Gwaith Craffu Blynyddol 2023-24

**4.5 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26**

(Tudalennau 41 - 44)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Cerddwyr at y Cadeirydd mewn perthynas â'r gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26 (Saesneg yn unig)

**4.6 Craffu ar waith Trafnidiaeth Cymru**

(Tudalennau 45 - 51)

**Dogfennau atodol:**

Ymateb gan James Price, Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru at y Cadeirydd mewn perthynas â'r gwaith craffu ar Trafnidiaeth Cymru

Llythyr gan James Price, Prif Weithredwr Trafnidiaeth Cymru at y Cadeirydd mewn perthynas â materion gweithredol ar Trafnidiaeth Cymru

**4.7 Fforwm Rhyngseneddol**

(Tudalennau 52 - 53)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan y Llywydd at y Cadeirydd mewn perthynas â'r Fforwm Rhyngseneddol

**4.8 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol**

(Tudalennau 54 - 57)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â chyfarfodydd rhynglywodraethol sydd i ddod

Llythyr gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig at y Cadeirydd mewn perthynas â Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2025

**4.9 Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Data (Defnydd a Mynediad)**

(Tudalen 58)

**Dogfennau atodol:**

Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio mewn perthynas â Chydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod heddiw

(12.30)

## Cyfarfod preifat (12.30-12.50)

## 6 Trafod y dystiolaeth a gafwyd o dan eitem 3

## 7 Ymchwiliad i’r ymateb i stormydd

(Tudalennau 59 - 64)

**Dogfennau atodol:**

Dulliau gweithredu posibl ar gyfer gwaith y Pwyllgor ar ymchwiliad i’r ymateb i stormydd (Saesneg yn unig)

Papur - Cynnig ymgysylltu (Saesneg yn unig)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

13 January 2025

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Yn sgil cais y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith, ysgrifennaf atoch gyda rhagor o wybodaeth am y pynciau penodol y gofynnwyd amdanynt ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad TrC.

Ar ran TrC, rwy'n croesawu'r ffaith bod y Pwyllgor yn craffu'n agos iawn ar ein perfformiad er mwyn sicrhau y gall TrC gynnig y gwasanaethau rheilffyrdd gorau i bobl Cymru a'r Gororau, a bod y prosesau sydd ar waith yn rhai onest wrth wario arian trethdalwyr i drawsnewid y rheilffordd. Roedd hefyd yn bleser eich croesawu i Depo Ffynnon Taf ym mis Tachwedd, ac rwy'n falch eich bod wedi gallu dod o hyd i amser i yn eich amserlen brysur i ymweld.

Nid yw 2024 wedi bod heb ei heriau gweithredol i TrC, ond mae hefyd wedi bod yn flwyddyn lle rydym wedi cyflawni rhai cerrig milltir o bwys o ran ein buddsoddiad yn ein fflyd newydd, gan gyflawni newid amserlen prif linell sylweddol a symud yn agosach at gyflawni ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer integreiddio trafnidiaeth yng Nghymru.

Ym mis Tachwedd, dechreuom roi ein Fflyd Newydd Sbon ar waith, sef ein trenau Dosbarth 756, a hynny ar hyd Lein Aberdâr a Merthyr, ac ar hyd lein Treherbert, o ddydd Llun 6 Ionawr 2025. Mae hwn yn uwchraddiad i'w groesawu ar lein TAM, a bydd rhagor o drenau Dosbarth 756 yn cael eu rhoi ar waith ar y leiniau hyn dros yr wythnosau nesaf.

Bellach, mae unedau newydd ar waith ar bron pob un o'r leiniau, gyda rhai leiniau fel yr un rhwng Wrecsam a Bidston neu Lein Dyffryn Conwy yn croesawu unedau newydd sbon. Yn sgil newid yr amserlen ar ddydd Sul 15 Rhagfyr 2024, bydd 100% o'r teithiau ar Ganghennau Gogledd Cymru yn cael eu gwasanaethu gan y fflyd newydd a thros 80% o deithiau yn cael eu gwasanaethu ar Brif Lein Gogledd Cymru gan ein fflyd newydd o drenau. At ei gilydd, bydd dros 87% o deithiau ar fflyd newydd ar gyfer Gogledd Cymru o amserlen Rhagfyr 2024.

Disgwyliwn y bydd yr holl fflydoedd newydd, ar wahân i'r trenau Dosbarth 398, wedi ein cyrraedd erbyn diwedd 2025, gyda'r holl unedau yn cael eu rhoi ar waith erbyn diwedd 2026. Mae'r tabl isod yn manylu ar sawl uned newydd a roddwyd ar waith hyd yma:

| Trenau Newydd | Nifer ar waith |
|---|---|
| Dosbarth 197 | 58 allan o 77 |
| Dosbarth 231 | 11 allan o 11 |
| Dosbarth 756 | 10 allan o 24 |
| Dosbarth 398 | 0 allan o 36 |
| Trenau Mark 4 | 7 allan o 8 |
| Dosbarth 153 | 16 allan o 18 |
| Dosbarth 230 | 5 allan o 5 |

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Gwnaethom newidiadau allweddol eraill i'r amserlen a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2024

- Llawer mwy o wasanaethau yn galw ym Mhontyclun, Llanharan a Phencoed - cynnydd yng nghyfanswm y gwasanaethau dyddiol o 38 i 59. Cynnydd o 55%.
- Cynyddu gwasanaethau Swanline yn ystod oriau brig i 1 trên yr awr (Baglan, Llansawel, Sgiwen a Llansamlet).
- Dau wasanaeth ychwanegol i Aberdaugleddau a mwy o gyfleoedd i gyrraedd Harbwr Abergwaun gan gael gwared ar y bwlch chwe awr gyfredol lle nad oes trenau yn rhedeg yng nghanol y dydd., sy'n cael gwared ar fwlch chwe awr heb drenau yn gwasanaethu yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae'r trên olaf o Gaerdydd i Faesteg trwy Ben-y-bont bellach yn rhedeg yn hwyrach - am 11:24pm.
- Trên olaf hwyrach o Abertawe i Gaerdydd fydd 11:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- Ymadawiadau mwy cyson gyda mwy o drenau yn gadael ar yr un pryd heibio pob awr.
- Bydd gwasanaethau Maesteg i gyfeiriad Caerdydd nawr yn rhedeg yr holl ffordd i Lyn Ebwy, yn hytrach na Cheltenham Spa.
- Bydd gwasanaethau Cheltenham Spa yn dechrau ac yn gorffen yng Nghaerdydd Canolog.
- Rhoi ar waith y newidiadau a ddaeth yn sgil yr Adolygiad Amserlen Strategol ar linellau Cambrian a Heart of Wales.
- Cyflwyno trenau Dosbarth 756 newydd sbon ar Linellau Craidd y Cymoedd (gan ddechrau ym mis Tachwedd) a threnau teithio llesol pwrpasol gyda mwy o le i feiciau, ailwampiad llawn a lifrai pwrpasol ar gyfer trenau lein Calon Cymru.
- Rhai newidiadau i'r patrwm galw ar rai gwasanaethau rhwng Caerdydd a Manceinion Piccadilly, i gyflymu rhai trenau a chyflwyno patrwm safonol yn yr amserlen.
- Bydd rhai gwasanaethau lleol rhwng Gorllewin Cymru a Chaerdydd nawr yn defnyddio Platfform 0 yng Nghaerdydd Canolog.
- Bydd Canghennau Gogledd Cymru yn parhau i gael defnyddio'r fflyd newydd ar 100% o deithiau a 80% o deithiau ar hyd Prif Lein Gogledd Cymru yn cael eu gwneud gyda'r fflyd newydd. Felly, y darlun cyffredinol yw y bydd ein fflyd newydd yn gwasanaethu 87% o'r teithiau yng Ngogledd Cymru ers amserlen Rhagfyr 2024.

Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu disgrifio fel y "newid amserlen prif linell fwyaf arwyddocaol mewn cenhedlaeth" ac mae wedi cymryd pedair blynedd i'w datblygu.

Fodd bynnag, mae'n wir dweud ein bod yn dal i brofi oedi gan ein gweithgynhyrchwyr, Stadler a CAF ac mae'n bwysig gweithio mewn partneriaeth â nhw ac i'w dal i gyfrif ym mhob ffordd bosibl. Yn ddiweddar iawn, euthum ar ymweliad byr i Sbaen i gwrdd â Phrif Swyddog Gweithredol CAF i'w roi pwysau ychwanegol arnyn nhw ynghylch cludiant ein trenau.
Felly, gyda'n fflyd a'n teithiau presennol ar drenau newydd, rydym wedi cyrraedd tua 70-75% ar ein taith, ond bydd hyn yn cynyddu gyda mwy o argaeledd y trenau Dosbarth 756 ac o ganlyniad, eu rhoi ar waith ar Lein Coryton yn y Gwanwyn/yn gynnar yn Haf 2025.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Y llynedd, fe wnaethon ni dreulio amser yn adolygu ein hymrwymiadau amserlenni rheilffyrdd tymor hwy i sicrhau eu bod yn diwallu gofynion cwsmeriaid yn y ffordd orau ac yn addas ar gyfer anghenion teithwyr. Ym mis Hydref, gwnaethom rannu'r gwaith hwn gydag Aelodau yn ogystal ag ar-lein gydag aelodau'r cyhoedd. Adolygiad o Amserlen Dyfodol TrC | Dweud eich dweud gan Trafnidiaeth Cymru.

Yn sgil pandemig Covid 19, mae'r ffordd y mae pobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer gwaith, addysg a hamdden wedi newid yn sylweddol. Rydym wedi newid hefyd, gan ddod yn rheilffordd gyhoeddus yng ngwir ystyr y gair. Mae bron pob gwasanaeth yr ydym yn ei redeg yn gofyn am ryw fath o gymhorthdal cyhoeddus ar adeg pan fo cyllidebau'n dynn. Caiff pob ceiniog a gymerwn ar unrhyw wasanaeth sydd y tu hwnt i'n costau gweithredu ei ddychwelyd i'r busnes er mwyn lleihau'r cymhorthdal a gawn. Fel gweithredwr cyfrifol, mae'n hanfodol ein bod yn cydbwyso'r angen am wasanaeth rheolaidd, cadarn a dibynadwy gyda'n cyllidebau yn erbyn ein targedau i ddarparu trafnidiaeth gynaliadwy well.

Roeddem wedi datblygu ein hamserlen yn y dyfodol i gyd-fynd yn well ag arferion teithio cyfredol a gofynion cwsmeriaid, gan ddod yn weithredwr gwirioneddol aml-ddull. Mae hynny'n golygu ein bod yn edrych ar y galw a'r cyfleoedd i dyfu ar draws y sector bysiau a rheilffyrdd gyda'n gilydd. Ar y rheilffordd, ni fydd rhai llwybrau'n gweld fawr o newid, bydd eraill yn gweld patrymau galw ychydig yn wahanol wedi'u targedu'n well at anghenion cyfredol, ond mewn meysydd eraill rydym wedi gorfod gwneud rhai penderfyniadau anodd i sicrhau ein bod yn darparu capasiti lle mae'r angen mwyaf, yn tyfu refeniw ac yn y pen draw yn lleihau cymhorthdal cyhoeddus. Mae adborth rheolaidd gan randdeiliaid am ein hamserlenni presennol wedi cyfrannu at y penderfyniadau hyn, ynghyd â rhifau teithwyr ac ystyriaeth fanwl o opsiynau teithio amgen.

Yn 2024, gwnaethom barhau â'n gwaith i baratoi ar gyfer cyflwyno Bil newydd i'r Senedd a fydd yn galluogi Diwygio'r sector Bysiau. Ym mis Mawrth 2024, gwnaethom gyhoeddi'r Map Ffordd i Ddiwygio'r Sector Bysiau ar y cyd â Llywodraeth Cymru sy'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer masnachfreinio bysiau. Fe wnaethom ei ddiweddaru ymhellach gyda mwy o fanylion am ein dull parthau lle rydym yn bwriadu masnachfreinio ar draws pedwar parth, dros bedair blynedd, gan ddechrau gyda De Orllewin Cymru yn 2027.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a'r rhanbarthau i ddatblygu glasbrintiau i gyflawni Diwygio Bysiau ar draws y pedwar parth hwn a datblygu ‘methodoleg parth‘ sy'n nodi sut rydym yn bwriadu gweithio gyda'n gilydd i greu cynlluniau masnachfreinio ar draws y rhanbarthau, gan sicrhau dull cenedlaethol cyson ar yr un pryd.

Rydym hefyd wedi sefydlu fframwaith ymgysylltu i gefnogi'r newid hwn a deall blaenoriaethau allweddol ein rhanddeiliaid a'n cymunedau i adeiladu'r rhwydwaith bysiau sydd ei angen ar Gymru. Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys Panel Diwydiant Diwygio Bysiau newydd sy'n dwyn ynghyd lleisiau sy'n cynrychioli buddiannau teithwyr, gweithredwyr bysiau mawr a bach a chanolig, sefydliadau Trafnidiaeth Gymunedol, llywodraeth leol ac Undebau Llafur. Bydd y panel yn chwarae rhan bwysig yn ein helpu i lunio'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn y prosiect Diwygio'r sector Bysiau ac yn sicrhau bod cydweithredu lleol a rhanbarthol wrth wraidd ein cynlluniau i fasnachfreinio bysiau.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn rhai cwestiynau penodol a gobeithiaf y bydd yr atebion isod yn eu hateb yn llawn;

**Rheoli Perfformiad**

Rydym yn deall bod tryloywder yn allweddol i ysbrydoli ymddiriedaeth a hyder pobl Cymru, ac am y rheswm hwn mae tryloywder yn sail i bopeth a wnawn. I'r perwyl hwn, ac fel y gellir adolygu a chraffu ar ein perfformiad yn rheolaidd, rydym yn adrodd ar ystod o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol aml-ddull i Lywodraeth Cymru a'r cyhoedd, sy'n cwmpasu:

- Cyllid
- Iechyd, diogelwch a chynaliadwyedd
- Boddhad cwsmeriaid a chwynion
- Perfformiad teithio a gwasanaeth i deithwyr
- Cyflawni cynllun busnes
- Prosiectau mawr y gellir eu cyflawni
- Caffael ac ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (ED&I)
- Ein Tîm a'n Pobl
- Y Gymraeg

Mae'r rhan fwyaf o'r DPA a restrir uchod yn cael eu hadrodd bob chwarter, ac eithrio ein perfformiad rheilffyrdd sy'n cael ei adolygu gan Fwrdd Rheilffyrdd TrC bob 4 wythnos ac sy'n cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ar gyfer pob cyfnod adrodd rheilffyrdd: Perfformiad trên | TrC.

Fel rhan o'n proses adrodd, rydym yn cyflwyno cerdyn sgorio KPI chwarterol i Fwrdd Perfformiad TrC/Llywodraeth Cymru, sy'n craffu ar berfformiad cyffredinol KPI y sefydliad ac yn uwchgyfeirio unrhyw bryderon i Fwrdd Llywio TrC.

**Cyllideb**

Er mwyn cynnal tryloywder o ran adrodd ariannol, rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu adroddiadau ariannol sy'n cyd-fynd â'u hanghenion. Rydym yn paratoi golwg aml-flwyddyn flynyddol ar gyfer LlC sy'n ein galluogi i sicrhau bod y trafodaethau a'r cynlluniau tymor hwy yn cael eu modelu a'u deall ar gyfer penderfyniadau hollbwysig a blaenoriaethu.

Cytunwyd ar amserlen ar gyfer y broses gosod cyllideb sy'n ein galluogi i weithio'n agos gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru i sicrhau bod eu mewnwelediad a'u her yn cael eu hadlewyrchu yn ein cyllideb derfynol.

Ar ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn, mae TrC yn cyflwyno cyllideb arfaethedig gychwynnol i gydweithwyr Llywodraeth Cymru i'w hadolygu ochr yn ochr â'n cynllun busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r gyllideb hon yn cynnwys holl gostau TrC sydd wedi'u mapio i linellau ariannu LlC (BELs).

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Gyda'r rhan fwyaf o'r cyllid wedi'i briodoli i ddarpariaeth gwasanaethau rheilffyrdd, gall fod yn heriol darparu cyllideb derfynol naw mis cyn y flwyddyn ariannol sydd i ddod sy'n ystyried newidynnau fel ymddygiad cwsmeriaid rheilffyrdd. Fodd bynnag, rydym yn cynnal archwiliad dwfn i gydrannau'r gyllideb gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru i adolygu a herio'r gyllideb ddrafft hon, ac mae'r allbynnau o'r sesiynau craffu hyn yn cael eu bwydo i ail fersiwn y gyllideb sydd unwaith eto'n bresennol i Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd.

Ar hyn o bryd, rydym yn gallu adolygu'r cyllid sydd ar gael a'r gyllideb arfaethedig, ac mae opsiynau amrywiol yn cael eu hystyried er mwyn cau unrhyw fylchau cyllido a nodwyd. Yn dilyn hyn, cyhoeddir cynllun busnes terfynol, gan gynnwys ein cyllideb arfaethedig

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd yn darparu adroddiadau ariannol misol i Lywodraeth Cymru, sy'n cynnwys:

- Creu rhagolygon gyda lefel debyg o fanylder i'r gyllideb (gan gynnwys trwy linell ariannu) a gwybodaeth am amrywiadau
- nodi risgiau a chyfleoedd
- manylion unrhyw amrywiadau cyllido y cytunir arnynt gyda deiliaid cyllideb o fewn LlC
- diweddariadau penodol am brosiectau parhaus a meysydd ffocws (e.e. MA, pensiynau, treth, prydlesi cerbydau)

Trafodir y data adrodd a'i ragweld mewn nifer o fforymau (cyfarfod cyllid misol, bwrdd llywio, trafodaethau manwl gyda deiliaid cyllideb). Rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i wella'r adroddiadau hyn yn barhaus yn unol â mewnwelediadau rhanddeiliaid.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda thimau adrodd ariannol Llywodraeth Cymru i gefnogi paratoi ac archwilio Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol Llywodraeth Cymru, lle caiff canlyniadau ariannol TrC eu cydgrynhoi.

**Integreiddio a'r Rhwydwaith T**

Yn 2024, rydym wedi bod yn paratoi i gyflawni ein gweledigaeth newydd a chyffrous ar gyfer integreiddio trafnidiaeth yng Nghymru, sy'n dod â'n system drafnidiaeth ynghyd ac yn cyd-fynd â theithiau i'n cwsmeriaid - o un dull i lawer. Mae Rhwydwaith T TrC (a elwid gynt yn TrC 2.0) yn nodi'r weledigaeth uchelgeisiol hon o greu un rhwydwaith, un amserlen, un tocyn, a gyflwynir gan un tîm.

Rydym yn cydnabod bod hyn yn gofyn am newid a pharodrwydd gwirioneddol yn TrC. Eleni, rydym wedi gosod y sylfaen ar gyfer llywodraethu, datblygu brand a newid diwylliannol. Dyma rai o'r camau allweddol yr ydym wedi'u cymryd hyd yma ar y daith:

- Creu is–bwyllgor Rhwydwaith T – cynhelir hyn bob deufis ac mae'n gwasanaethu fel ‘meddwl arweiniol’ i ddatgloi materion busnes neu system gyfan a chefnogi gwneud penderfyniadau strategol. Mae aelodaeth yr is-bwyllgor yn cynnwys cydweithwyr Llywodraeth Cymru, Tîm Arwain Gweithredol TrC, gan gynnwys fi fy hun, a Chyfarwyddwyr Anweithredol TrC. Mae'n debygol y bydd gwaith y pwyllgor hwn yn trosglwyddo'n fuan i'r prif Fwrdd – gan mai dyma rôl allweddol TrC yn y dyfodol.

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

- Symud 5 ffrwd waith cyflenwi - mae'r ffrydiau gwaith hyn yn cynnwys Cwsmeriaid, Ffyrdd o Weithio, Systemau a Thechnoleg, Diwylliant ac Integreiddio Trafnidiaeth Genedlaethol/Rhanbarthol. Mae gan bob ardal noddwr ELT ac mae'n cael ei oruchwylio gan dîm prosiect Rhwydwaith T fel bod partneriaid cyflawni yn cael dwyn i gyfrif.
- Rydym wedi datblygu fframwaith brand clir a phensaernïaeth brand - Rydym wedi datblygu ffordd newydd o gyfleu'r dyfodol aml-ddull hwn (pensaernïaeth brand) i gwsmeriaid a sbarduno newid ymddygiad ledled y wlad. Mae hwn yn bensaernïaeth brand sy'n weithredol, yn hyblyg ac yn llawn personoliaeth, gan ddefnyddio'r symbol 'T' fel ffagl i arwain pobl Cymru.
- Rhaglen newid diwylliant cydweithredol - Er mwyn cyflawni ein dyfodol fel sefydliad mae angen newid diwylliannol mewnol arnom. Er mwyn gyrru diwylliant perfformiad cryf a chreu ymdeimlad o bwrpas a rennir, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ac Undebau Llafur i ddatblygu cenhadaeth, gweledigaeth, pwrpas a gwerthoedd newydd TrC. Fe wnaethom lansio hyn yng nghwmni uwch arweinwyr yn barod ar gyfer lansio cwmnïau ehangach ym mis Ionawr 2025.

**Datblygiad Sefydliadol**

Fel rhan o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 - 2028, byddwn yn sicrhau bod amrywiaeth o hyfforddiant EDI, gan gynnwys hyfforddiant gwrth-hiliaeth, yn cael ei gyflwyno ar draws y busnes, i greu gweithlu gwybodus ac ymwybodol, gan sicrhau bod y rhai sydd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a/neu grwpiau ar y cyrion yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu ac yn cael ymdeimlad o berthyn ymhlith eu cyfoedion a'u cydweithwyr.'

Yn ogystal, byddwn yn parhau i fuddsoddi a chefnogi amrywiaeth o gynlluniau fel:

- Rhaglen LEAD Menywod mewn Trafnidiaeth,
- Rhaglen mentora Ymlaen Llaw Menywod mewn Trafnidiaeth
- Cynllun mentora Symud Ymlaen Menywod mewn Trafnidiaeth
- Lansio ein rhaglen fewnol Menywod mewn Arweinyddiaeth yn 2025

Bydd Hwb Menywod mewn Trafnidiaeth Cymru a grŵp rhanbarthol Menywod mewn Trafnidiaeth hefyd yn parhau â'u gwaith yn cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau i rannu arfer da, gwybodaeth, ymgysylltu â menywod ar draws y sector trafnidiaeth a thyfu nifer y cynghreiriad gwrywaidd sy'n ymwneud a'r gwaith a wneir.

Mae'r rhaglenni hyn yn helpu menywod fagu hyder a chyflawni eu potensial llawn. Hefyd, dengys ein hystadegau datblygu mewnol bod mwy o fenywod o ran canran yn debygol o ymgymryd â chyrsiau galwedigaethol a chymwysterau.

Mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud drwy fuddsoddi mewn hyfforddiant arweinyddiaeth menywod yn TrC, fel y gallwn weld cynrychiolaeth well o fenywod mewn swyddi â chyflogau uwch a pharhau i leihau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau – ac o ganlyniad, bod yn sefydliad mwy effeithiol. Er mwyn rhoi trosolwg o'n ffigurau bwlch cyflog rhwng y rhywiau swyddogol, rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn unol â deddfwriaeth Llywodraeth y DU sy'n cynnwys y data canlynol:

- Bylchau cyflog cymedrig a chanolig rhwng y rhywiau

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

- Bylchau bonws rhwng y rhywiau cymedrig a chanolrif
- Cyfran y dynion a'r menywod a dderbyniodd fonws
- Cyfran y dynion a'r menywod ym mhob chwarter cyflog.

Disgwylir i data 2023/24 gael ei gyhoeddi ddiwedd mis Ionawr 2025, ond mae'r tabl isod yn gipolwg o'n data Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 23/24 a fydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad:

| GPG cyffredinol | Cymedr | | Canolrifol | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022/2023 | 2023/2024 | 2022/2023 | 2023/2024 |
| TrC | 15.8% | 16.6% | 18.8% | 19.58% |
| Rheilffyrdd | 15.2% | 14.97% | 16.2% | 14.3% |
| Grŵp | 14.9% | 13.6% | 14.1% | 15.3% |

**Rhoi Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ar waith**

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, mae TrC wedi bod yn gweithio'n agosach fyth gydag Awdurdodau Lleol a Chyd - bwyllgorau Corfforaethol (CJC) i helpu swyddogion i ddatblygu Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol trwy ddarparu cymorth technegol, cefnogaeth eirioli a chydweithredu. Ar hyn o bryd, mae Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol wedi cael eu drafftio gan bob un o'r pedwar rhanbarth yng Nghymru a bydd pob CJC yn cynnig y cynlluniau hyn er mwyn gallu  ymgynghori arnynt yn gynnar yn 2025. Yn ogystal â hyn, disgwylir i'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol gael eu cyhoeddi yn haf 2025 yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Mae'n allweddol nodi mai dim ond dyletswydd statudol sydd gan y CJC i baratoi'r Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol, tra bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn fater i awdurdodau llywodraeth leol unigol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn ceisio datganoli'r ffrydiau ariannu i CJC ac mae trafodaethau cychwynnol yn cael eu cynnal gyda chynrychiolwyr ar draws y sector cyhoeddus i ddiffinio sut y gall rheoli a darparu prosiectau fanteisio ar wybodaeth leol ac eiriolaeth wleidyddol, gan elwa ar adnoddau dulliau rhanbarthol o weithio. Bydd TrC yn chwarae rhan allweddol yn hyn, fel canolfan ragoriaeth ar gyfer cynllunio trafnidiaeth, rheoli a darparu seilwaith.

Gyda gostyngiad parhaus yn adnodd trafnidiaeth Llywodraeth Leol, mae'r gallu i lywodraethau lleol gyflwyno Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol yn her sylweddol ac yn dangos ymhellach bwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth ranbarthol. Felly, mae TrC yn cynnig ystod o sgiliau a gwasanaethau i gefnogi ac ategu at waith llywodraeth leol ledled Cymru. Rydym yn awyddus i gefnogi ein partneriaid yn y sector cyhoeddus i sicrhau llwyddiant darpariaeth leol a rhanbarthol.

Fel y soniwyd eisoes, rydym yn dechrau llunio rhaglenni sy'n hyrwyddo integreiddio trafnidiaeth ledled Cymru. Efallai mai'r Cynlluniau Cyflawni Trafnidiaeth Rhanbarthol yw'r dull cyflawni ar gyfer hyn, gan gyflawni gwelliannau lleol ond gyda dull a systemau sydd wedi'u safoni'n genedlaethol sy'n sicrhau bod teithiau'n cael eu cydgysylltu, yn enwedig ar gyfer y siwrneiau hynny sy'n integreiddio â thrafnidiaeth gyhoeddus.

Yn olaf, mae TrC yn cefnogi Llywodraeth Cymru wrth iddynt foderneiddio'r broses grant i gyd-fynd â chyllid blwyddyn yn y dyfodol a'r blaenoriaethau a nodir uchod.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Paratoi ar gyfer Diwygio'r sector Bysiau**

Mae Llywodraeth Cymru a TrC yn adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n cyfuno cerdded, olwynio, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn gwneud trafnidiaeth gynaliadwy'r ffordd hawsaf o deithio. Mae bysiau yn rhan allweddol o'r weledigaeth hon, ac mae angen rhwydwaith bysiau dibynadwy, fforddiadwy, hyblyg a hawdd ei ddefnyddio ar bobl Cymru.

Fel rhan o'n gwaith partneriaeth parhaus gyda CJC ac Awdurdodau Lleol, rydym wedi cytuno ar y cyd ar fethodoleg ar gyfer sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i baratoi ar gyfer Diwygio'r sector Bysiau. Mae'r fethodoleg hon hefyd wedi'i chymeradwyo gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac aelodau'r cabinet trafnidiaeth ar draws y 22 Awdurdod Lleol.

Fel diweddariad i Ein Map Ffordd i Ddiwygio'r sector Bysiau lle'r oeddem yn bwriadu cymryd agwedd ddaearyddol tuag at fynd ati i fasnachfreinio'r sector bysiau, rydym wedi cytuno ar y prif barthau i'w cyflwyno ar draws pedwar parth yn seiliedig ar broffil cwsmeriaid a chyfansoddiad y rhwydwaith arfaethedig.
Yn 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru'r amserlen ganlynol i'w chyflwyno:

- De Orllewin 2027
- Y Gogledd 2028
- De Ddwyrain
- Canolbarth Cymru 2030.

Mae'r ystyriaethau allweddol a wneir wrth gytuno ar ddilyniant ardaloedd masnachfraint yn cynnwys cymhlethdod y rhwydwaith, gan gynnwys symudiadau traws gwlad a thrawsffiniol; lefelau presennol o reolaeth a chystadleuaeth o fewn y parthau hynny; gallu i dyfu refeniw yn yr ardal; a chyfleoedd datgarboneiddio bysiau sydd ar gael.

Wrth i ni weithio tuag at fodloni'r cerrig milltir hyn, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Chyngor Powys a Chyngor Ceredigion i weithio ar bontio i fenter masnachfreinio yng Nghanolbarth Cymru. Gan fod y rhan fwyaf o rwydwaith Canolbarth Cymru eisoes wedi'i gontractio, ein nod yw sicrhau rhai manteision rhannol o ddiwygio bysiau cyn i'r ddeddfwriaeth dderbyn Cydsyniad Brenhinol arfaethedig yng Ngwanwyn 2026.

Yn y cyfamser, rydym yn awyddus i ddysgu am yr effaith y bydd diwygio bysiau yn ei chael ar wasanaethau felly rydym yn cymhwyso rhai o'r amcanion masnachfreinio ynghylch prisiau, tocynnau, amserlen a chontractau i'n gwasanaethau Traws Cymru, yn ogystal â phartneru ag Awdurdodau Lleol, fel Cyngor Gwynedd, ar ail -dendro.

Rydym wedi ymrwymo i gynnal deialog agored a gonest am ddarpariaeth bysiau gyda phobl ledled Cymru a'r gororau. Mae deall blaenoriaethau ein rhanddeiliaid a'n cymunedau yn allweddol i greu rhwydwaith bysiau sydd ei angen ar Gymru. Mae gan TrC bensaernïaeth ymgynghorol teithio aml-ddull sefydledig sy'n dwyn ynghyd gynrychiolwyr o grwpiau cwsmeriaid, y llywodraeth, y diwydiant a phobl â nodweddion gwarchodedig. Maent yn darparu adborth, craffu a chyngor. O ran masnachfreinio bysiau, rydym wedi sefydlu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol sydd wedi arwain at uned holl-bartner o'r enw Fforwm y Diwydiant Bysiau.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Er mwyn sicrhau bod diwygio bysiau'n caniatáu i'r sector cyhoeddus wneud penderfyniadau am ddylunio'r rhwydwaith, rydym yn datblygu dull o fesur pa mor hygyrch yw'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus. Fel rhan o'r dull hwn, hoffem wybod:

- Pa mor gyfleus yw'r rhwydwaith?
- Pa mor dda y mae'n cysylltu pobl â lle maen nhw eisiau mynd?
- Pa mor dda y mae'n cysylltu pobl â gwasanaethau trafnidiaeth eraill?

Bydd hyn yn ein galluogi i fesur llwyddiant y rhwydwaith o ran gwella mynediad (sef 400m o safle bws, gorsaf reilffordd neu gyfnewidfa â gwasanaethau bob awr neu fwy aml); mynediad at gyfle (ble a beth allwch chi gael mynediad ato gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus o fewn amser penodol o'ch cartref); a mesur integreiddio.

Er mwyn rhoi hyn yn ei gyd-destun, rydym eisoes wedi dechrau gweithredu'r fethodoleg hon yn y De-orllewin gan mai dyma'r parth cyntaf yr ydym yn bwriadu masnachfreinio ynddo. Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda phedwar Awdurdod Lleol y parth i sefydlu dau rwydwaith, gan gynnwys rhwydwaith sylfaen a rhwydwaith uchelgeisiol, sy'n destun cyllid.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol eisoes ar y gweill yn y De-orllewin ac rydym wedi cyflwyno gweithgareddau gan gynnwys sesiynau ar fasnachfreinio ar gyfer cynrychiolwyr etholedig, yn ogystal â chynrychiolwyr o TrC sy'n mynychu cyfarfodydd cabinet ffurfiol ac anffurfiol i ddarparu diweddariadau.

Yn Haf 2025, byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus gyda chyfleoedd ar-lein ac wyneb yn wyneb i randdeiliaid a chwsmeriaid ddweud eu dweud ar sut y dylai'r rhwydwaith edrych. Fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, byddwn yn ymgysylltu â gweithredwyr i roi cyfleoedd iddynt rannu eu barn ar y rhwydwaith, a'u cefnogi i adeiladu eu gwybodaeth leol yn y broses. Rydym hefyd yn bwriadu rhoi rhwydwaith y De-orllewin gerbron y Senedd yn 2026, yn unol â cham arfaethedig y cytundeb deddfwriaeth.

Wrth i ni symud yn agosach at y garreg filltir cyflwyno gyntaf, byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i fireinio ein dull o fasnachfreinio'r rhwydwaith fel ein bod yn adeiladu'r rhwydwaith gorau posibl i deithwyr.

**Cyflenwi Rheilffyrdd a Metro**

Rydym wedi parhau i gyflawni gwaith Trawsnewid Seilwaith Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) a chomisiynu cerbydau i gefnogi rhaglen Metro Caerdydd, gyda'r holl gerrig milltir pwysig allweddol wedi'u cwblhau'n llwyddiannus yn ystod 2024.

Y llynedd, gwnaethom gwblhau gwaith ar y cyfarpar signalau a llinellau uwchben, a fydd yn pweru'r trenau trydan newydd sbon, ar linellau Treherbert, Aberdâr a Merthyr, a chawsom Gymeradwyaeth i Leoli i Wasanaeth Teithwyr (APIS) gan y Swyddfa Ffyrdd a Rheilffyrdd (ORR) sydd wedi ein galluogi i ddechrau rhoi ein fflyd tri-dull Dosbarth 756 newydd ar waith i wasanaethu teithwyr ym mis Tachwedd 2024.

Carreg filltir bwysig arall a gyflawnwyd gennym ym mis Tachwedd 2024 oedd cwblhau Depo Ffynnon Taf newydd, cartref fflyd trenau tram Dosbarth 398 newydd sbon. Mae'r depo bellach yn gweithredu'n llawn, gyda'r cyntaf o'n cydweithwyr yn gweithredu o'r safle.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Gan mai'r prif weithgaredd ar linellau TAM yw parhau i gyflwyno'r trenau newydd, ein ffocws nesaf ar gyfer trawsnewid seilwaith fel rhan o brosiect Metro De Cymru yw comisiynu ac egnïo rheilffyrdd Caerdydd i Rymni yn 2025. Wrth i ni symud i'r cam nesaf hwn o drawsnewid seilwaith, rydym wedi cymryd yr amser i adolygu ein dull Rheoli Rhaglenni a'r gadwyn gyflenwi. Fel rhan o'r ymarfer hwn, rydym wedi diwygio'r dull strategol o ddarparu rhaglenni fel bod integreiddio'r gwaith sy'n weddill yn cael ei symleiddio ac i ddiwygio telerau contractau cyflenwyr i gynyddu'r defnydd o gontractau pris sefydlog a chostau targed.

**Teithio Llesol**

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae TrC wedi bod yn gweithio'n agosach fyth gydag Awdurdodau Lleol a Chynghorau Cymuned i hyrwyddo gallu technegol swyddogion yng Nghymru yn gyntaf (TrC ac Awdurdodau Lleol) i ddatblygu a chyflwyno cynlluniau teithio llesol da ac yn ail i ddeall yn well sut i werthuso eu heffeithiolrwydd ac yn wir sut i annog gwell defnydd a chymryd rhan fel rhan o rwydwaith trafnidiaeth aml-ddull.

Ar hyn o bryd mae'r ffocws ar weithio mewn partneriaeth â Chynghorau Corfforaethol ac Awdurdodau Lleol i gefnogi swyddogion i gyflwyno a dylunio cynlluniau rhagorol fel rhan o gynllun trafnidiaeth rhanbarthol crwn. Mae'r pwyslais ar gefnogi a galluogi a darparu gwasanaeth i swyddogion awdurdodau lleol yn hytrach nag mewn rôl orfodi.

Dros y 18 mis diwethaf, mae TrC wedi datblygu'r capasiti am y tro cyntaf i gefnogi cynllun dylunio, gan gynnig y gallu i sicrhau gwerth llawer uwch am arian i Gymru yn y maes hwn wrth i ni symud ymlaen.

**Addasu Hinsawdd**

Yn 2023, gwnaethom gyhoeddi ein Cynllun Addasu a Chydnerthedd Hinsawdd sy'n cwmpasu ein rhwydwaith sy'n eiddo i ni yn Ne-ddwyrain Cymru ac sy'n ategu Strategaeth Cydnerthedd Tywydd a Newid Hinsawdd Network Rail ar gyfer Cymru a'r gororau ynghylch asedau sy'n eiddo i Network Rail.

Er mwyn ein helpu i flaenoriaethu ein cynlluniau i addasu'r hinsawdd yn y dyfodol, mae'r cynllun yn asesu pa mor agored ydym ni ar hyn o bryd i dywydd eithafol neu niweidiol ac yn rhoi dealltwriaeth o sut y gallai ein rhwydwaith a'n gwasanaethau gael eu heffeithio yn ystod y digwyddiadau hyn.

Yn ogystal â datblygu'r cynllun hwn, rydym hefyd wedi cynnal asesiadau risg newid yn yr hinsawdd i nodi'r risgiau a'r cyfleoedd tebygol a allai effeithio ar ein gweithrediadau, gyda'r nod o ddatblygu cynlluniau cyflawni addasiadau penodol i'r prosiect yn y dyfodol. O hyn, rydym wedi cyflwyno hyfforddiant i wahanol dimau o fewn TrC yn seiliedig ar ein canllawiau Asesu Newid Hinsawdd ar gyfer datblygu prosiectau newydd i sicrhau bod cydnerthedd yn yr hinsawdd yn rhan annatod o'n hasedau newydd, ein rhaglenni cynnal a chadw a'n penderfyniadau.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

O asesiad blaenorol, rydym yn deall bod gwyntoedd cryfion a llifogydd yn arwain at yr effaith fwyaf ar redeg ein gwasanaethau, fel y gwelsom tua diwedd 2024 yn sgil yr effaith a gafodd Storm Bert a Storm Darragh ar ein busnes. Gwyddom hefyd fod digwyddiadau penodol iawn yn digwydd oherwydd tywydd garw mewn rhai lleoliadau ar Reilffyrdd Craidd y Cymoedd (CVL), fel y ddaear yn symud, a all achosi tarfu mawr ar ein rhwydwaith.

Mae gennym nifer o orsafoedd tywydd ar draws y CVL lle gallwn fonitro patrymau tywydd lleol gan gynnwys glaw, gwynt, lleithder a gwres. Defnyddir y data a gesglir yn y gorsafoedd tywydd hyn i bennu'r patrymau tywydd sy'n debygol o achosi'r tarfu mwyaf ar wasanaethau ar y CVL fel y gellir rhoi mesurau rhagofalus ar waith. Mae gan ein tîm Rheoli Asedau weithdrefnau cadarn ar waith i ddarparu lefel bresennol o gydnerthedd i ddigwyddiadau tywydd cyfredol, ac rydym yn adolygu'r gweithdrefnau hyn i sicrhau y gallwn nodi bregusrwydd ac ymateb i ddigwyddiadau tywydd sy'n gwaethygu.

Mae gennym hefyd fynediad at fonitro cyflwr o bell, gan gynnwys camerâu sgrin malurion, systemau monitro lefel dŵr mewn ardaloedd llifogydd hysbys, yn ogystal â systemau rhybuddio lefel llifogydd afonydd ar gyfer pontydd afonydd sydd mewn perygl o gael eu difrodi gan falurion a gludir gan afonydd.

Mewn ardaloedd lle nad yw'n bosibl ymyrryd oherwydd daearyddiaeth neu gost, rydym yn caniatáu ar gyfer ymateb cyflym unwaith y bydd llifogydd wedi mynd heibio fel y gallwn gyfyngu ar ba mor hir y byddem yn gorfod cau'r llinell er mwyn sicrhau bod y rheilffordd yn ailagor yn ddiogel.

Mae TrC yn aelod o Weithgor Addasu Newid Hinsawdd Rheilffyrdd y DU (RSSB) lle rydym wedi ymrwymo i ddefnyddio'r un amcanestyniadau hinsawdd â diwydiant rheilffyrdd ehangach y DU. Rydym hefyd wedi sefydlu Gweithgor Addasu Newid Hinsawdd CVL i arwain ar weithredu Cynllun Cyflawni Addasu Hinsawdd CVL penodol, sy'n canolbwyntio ar gynyddu chydnerthedd yr asedau sy'n eiddo i ni.

Mae'r gweithgor CVL yn adrodd i'r Grŵp Llywio Newid Hinsawdd trosfwaol sydd wedi'i sefydlu i roi cyfeiriad ac atebolrwydd strategol i TrC, ac i fonitro ein cynnydd i ddod yn fwy cydnerth yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Rwy'n gobeithio eich bod chi ac Aelodau'r Pwyllgor yn cadw'n dda ac y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi. Rwy'n edrych ymlaen at ein sesiwn flynyddol ar 23ain Ionawr i ymchwilio ymhellach i'r manylion.

Cofion cynnes,

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive

# Eitem 4.1

**From:** Nerys Lloyd-Pierce <nerys@lloyd-pierce.co.uk>
**Sent:** 19 December 2024 11:49
**To:** Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee | Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith <SeneddClimate@senedd.wales>
**Subject:** More biodiversity loss and poor climate decision in Cardiff

Dear Llyr,

Cardiff City Society would like to bring to your attention a recent planning decision made by Cardiff Council which, in our opinion, has not taken the step-wise approach to preserving and enhancing biodiversity required by Planning Policy Wales seriously.

In October, Cardiff's Planning Committee made a decision to approve a large battery plant and data centre on the coast off Rover Way despite concerns over environmental impacts, in particular habitat loss. The development site is significant Open Mosaic Habitat surrounded by a number of sites of scientific and ecological importance.

The scheme was deemed to be acceptable 'on balance'. The paper considered by Planning Committee is online at https://cardiff.moderngov.co.uk/documents/s81428/2400624FUL%20Land%20at%20Rover%20Way%20Splott.pdf

PPW12 (p.148) states:

'Planning authorities must follow a step-wise approach to maintain and enhance biodiversity, build resilient ecological networks and deliver net benefits for biodiversity by ensuring that any adverse environmental effects are firstly avoided, then minimized, mitigated, and as a last resort compensated for.'

It is acknowledged that the proposed development will result in a 70% loss of habitat space. The paper (paras 8.68 onwards) dismisses the possibility of avoidance and minimisation and moves straight to considering mitigation and compensation. On-site compensation has not been taken as seriously as the County Ecologist considers it should have been. In relation to off-site compensation, no site has been offered in mitigation for the loss of land, and no explanation provided for this failure. Rather the council will benefit from a legal agreement with the developer which will see a payment of £250,000, hoping this can be used to fund biodiversity projects or find replacement land in mitigation. The County Ecologist raised concerns about the lack of on-site and off-site compensation as well as expressing wider concerns about the development which they opposed.

We are concerned that the approval of this planning application and the way in which avoidance and minimisation of negative environmental impacts were so quickly dismissed could set a precedent for other developers to take the same approach, thereby undermining the intent of national planning policy.

Yours sincerely,

***Nerys Lloyd-Pierce***
***Chair, Cardiff Civic Society***

email chair@cardiffcivicsociety.org

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/10547/24

Llŷr Gruffudd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

23 Rhagfyr 2024

Annwyl Llŷr,

Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor am y bwriad i gydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud a gosod Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2025 ('y Rheoliadau').

Derbyniais lythyr gan y Farwnes Hayman o Ullock, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol, yn gofyn am gydsyniad i'r Rheoliadau. Mae'r Rheoliadau yn gymwys o ran Cymru, Lloegr a'r Alban. Gwneir y Rheoliadau drwy arfer pwerau o fewn Rheoliad (UE) 2016/2031 ('y Rheoliad Iechyd Planhigion') a Rheoliad (UE) 2017/625 ('y Rheoliad Rheolaethau Swyddogol'). Yn unol â'r Rheoliadau hynny, cysylltodd yr Ysgrifennydd Gwladol â Gweinidogion Cymru a'r Alban am gydsyniad i gymhwyso'r Rheoliadau i Gymru a'r Alban. Yn unol â'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cynnal ymgynghoriad (y bydd crynodeb ohono yn ymddangos yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau).

Mae'r Rheoliadau'n diogelu bioddiogelwch ac yn cefnogi masnach rhwng Prydain Fawr a thrydydd gwledydd drwy gyflwyno neu ddiwygio mesurau i amddiffyn rhag plâu planhigion. Maent hefyd yn diwygio mesurau rheolaethau swyddogol penodol er mwyn sicrhau bod rheolau iechyd planhigion yn cael eu gweithredu, ac yn gwneud diweddariadau technegol i ddeddfwriaeth.

Mae Rhan 2 o'r Rheoliadau yn diwygio'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol i alinio nwyddau (ffrwythau a llysiau penodol) sydd wedi'u hesemptio o'r gofyniad i rag-hysbysu, â'r rhai sydd wedi'u hesemptio o'r gofynion i rai rheolaethau swyddogol gael eu cynnal pan fydd y nwyddau hynny'n cael eu mewnforio i Brydain Fawr o Aelod-wladwriaeth o'r UE, Liechtenstein neu'r Swistir. Mae hyn yn dod â'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/2072 ('y Rheoliad Amodau Ffytoiechydol').

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2019/1014 ('Rheoliad Gofynion Sylfaenol Safle Rheolaethau'r Ffin) i ddiffinio planhigion mawr, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau mawr eraill, ac mae'n mewnosod Erthygl 6A newydd i ddarparu'r gofynion ychwanegol ar gyfer ardaloedd dadlwytho ac ardaloedd archwilio ar gyfer y nwyddau hynny.

Mae Rhan 4 o'r Rheoliadau yn cynnwys rheoliadau 5 i 12 ac yn diwygio'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol. Mae rheoliadau 5 a 6 yn diweddaru'r rhestr o blâu cwarantîn yn Atodiad 2 a'r rhestr o blâu cwarantîn dros dro yn Atodiad 2A. Mae *Heterobasidion irregulare* wedi cael ei ddileu o'r rhestr dros dro a'i ychwanegu at y rhestr o blâu cwarantin. Mae*Diaporthe phaseolorum* var. *sojae* wedi cael ei symud o'r categori 'Bacteria' i'r categori 'Ffyngau ac oomysetau'. Mae amryw enwau plâu wedi cael eu diwygio i sicrhau bod y plâu hynny'n cael eu hadnabod yn ôl eu henw diweddaraf.

Mae Rheoliadau 7 ac 8 yn diweddaru amryw enwau plâu yn y rhestr o blâu di-gwarantîn a reoleiddir a'r planhigion cysylltiedig, a'r rhestr o fesurau i atal presenoldeb plâu di-cwarantîn a reoleiddir ar blanhigion penodol er mwyn sicrhau cysondeb ag enwau a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae Rheoliadau 9 a 10 yn diweddaru enwau plâu yn Atodiadau 7 ac 8 er mwyn sicrhau cysondeb ag enwau a gydnabyddir yn rhyngwladol. Mae Rheoliad 9 hefyd yn ychwanegu gofyniad yn Atodiad 7 i rai planhigion a fewnforir ar gyfer plannu fod wedi cael eu tyfu mewn man cynhyrchu cofrestredig. Mae'n ychwanegu gofynion ychwanegol i atal lledaeniad *Popillia japonica* Newman, ac mae'n caniatáu planhigion *Capsicum* lle y cânt eu cynhyrchu o hadau heb eu profi pan fwriedir eu gwerthu i ddefnyddwyr terfynol nad ydynt yn ymwneud â chynhyrchu planhigion. Mae'r gofynion mewnforio ar gyfer straen cudd mafon y gorllewin o’r feirws rhesog tybaco, feirws crychu dail mafon a feirws dail rhathellog ceirios yn cael eu hegluro. Mae cofnodion wedi cael eu hychwanegu ar gyfer cynhyrchion o *Abies* spp. Mill., *Calocedrus decurrens* Torrey, *Juniperus* spp. L., *Larix* spp. Mill., *Picea* spp. Mill., *Pinus* spp. L., a *Pseudotsuga menziesii* (Mirbel) Franco.

Mae Rheoliad 11 yn diweddaru'r rhestrau yn Atodiad 11 mewn perthynas â gofynion tystysgrif ffytoiechydol i ail-gategoreiddio ffrwythau a llysiau penodol sy'n cyrraedd o'r UE a'r Swistir ac mae 'pinales' wedi cael ei ail-gategoreiddio'n 'Pinopsida'

Mae rheoliad 12 yn diweddaru'r rhestr o blanhigion, cynhyrchion planhigion a gwrthrychau eraill y mae pasbortau planhigion y DU yn ofynnol ar eu cyfer i sicrhau cysondeb â'r enw ar gonifferau a gydnabyddir yn rhyngwladol.

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020 mewn perthynas ag esemptiadau o'r gofyniad am ardystiad iechyd planhigion i sicrhau cysondeb â'r gofynion rhag-hysbysu yn dilyn diwygiadau i'r Rheoliad Amodau Ffytoiechydol a'r Rheoliad Rheolaethau Swyddogol.

Mae'r Rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a disgwylir iddynt gael eu gosod gerbron Senedd y DU ar 8 Ionawr 2025. Nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU ynghylch y mater hwn ac mae'r Rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth na chafodd ei gwneud yn ddwyieithog.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud gan Weinidogion Cymru, y tro hwn, ystyrir ei bod yn briodol i'r Rheoliadau gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â maes datganoledig, fodd bynnag, maent yn effeithio ar fioddiogelwch Cymru, Lloegr a'r Alban – mater sydd wedi cael ei ystyried ar y cyd yn draddodiadol. Nid yw plâu a chlefydau planhigion eraill yn parchu ffiniau rhwng gwledydd. Mae llawer o'r Rheoliadau yn ymwneud â mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion. Mae'r rhan fwyaf o'r nwyddau

hyn sy'n dod i mewn i Gymru yn dod drwy borthladdoedd Lloegr. Gallai cyflwyno rheoliadau ar wahân yng Nghymru a Lloegr greu baich ychwanegol ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), ac ar fusnesau, masnachwyr a thyfwyr. Mae rheoleiddio ar sail Cymru, Lloegr a'r Alban yn cynorthwyo'r rhanddeiliaid hynny y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion o fewn y ddeddfwriaeth i gynnal ein bioddiogelwch.

Hoffwn roi sicrwydd i'r Pwyllgor mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn cymhwysedd datganoledig.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn gywir



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

Ken Skates AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd

20 Rhagfyr 2024

Annwyl y ddau ohonoch,

**Cau Porthladd Caergybi dros dro**

Yn sgil y newyddion diweddar y bydd Porthladd Caergybi yn cau tan 15 Ionawr fan leiaf oherwydd difrod gan Storm Darragh, mae Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig yn ymwybodol o'r pryder sylweddol y bydd hyn yn ei achosi i fusnesau a'r gymuned leol, yn ogystal â'r anhawster y bydd hyn yn ei greu i'r rhai fydd yn teithio rhwng gogledd Cymru ac Iwerddon dros gyfnod y Nadolig.

Byddwn yn ddiolchgar, felly, pe gallech roi'r wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor:

- A allech nodi pa gymorth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei roi i fusnesau a gweithwyr y bydd cau'r porthladd dros dro'n effeithio arnynt, ac a ydych wedi cael trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch dull gweithredu ar y cyd i gefnogi'r rhai yr effeithir arnynt.

- A fyddech cystal â dweud wrthym hefyd sut yr ydych yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r porthladd i allu ailagor cyn gynted ag y bo'n ddiogel gwneud hynny. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru ac eraill i fuddsoddi yn y porthladd i gefnogi ei adferiad, ac i leihau'r risg y bydd rhywbeth tebyg yn digwydd yn y dyfodol.

Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallech roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw newid i'r dyddiad disgwyliedig ar gyfer ailagor y porthladd.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

We welcome correspondence in Welsh or English

Copi at: Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

Eitem 4.4

Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales

# Cyfoeth Naturiol Cymru – Gwaith Craffu Blynyddol 2023-24: Diweddariadau i argymhellion Ionawr 2025

Ymhellach i’n hymateb gwreiddiol ym mis Gorffennaf 2024 i Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Seilwaith a'r Amgylchedd 'Cyfoeth Naturiol Cymru – Gwaith Craffu Blynyddol 2023-24' gwnaethom ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn erbyn nifer o'r argymhellion a wnaed o fewn chwe mis.

## Argymhelliad 3. Dylai CNC roi diweddariad, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 31 Hydref 2024, ar gynnydd datblygu dangosyddion strategol a metrigau perfformiad terfynol.

Mae'r gwaith hwn wedi'i ohirio oherwydd ein rhaglen Achos dros Newid. Byddwn yn ysgrifennu eto i roi diweddariad i'r Pwyllgor am ein cynnydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

## Argymhelliad 5. Dylai CNC ddatblygu a gweithredu strategaeth ymgysylltu sy'n cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch penderfyniadau ar leihau neu ailstrwythuro gwasanaethau. Dylai'r strategaeth hon anelu at reoli disgwyliadau ac egluro newidiadau yn y modd y darperir gwasanaethau.

Rydym yn datblygu strategaeth ymgysylltu gynhwysfawr i gynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid mewn trafodaethau ystyrlon am leihau gwasanaethau ac ailstrwythuro. Mae'r strategaeth hon bellach yn cael ei gweithredu ar gyfer meysydd allweddol lle bydd gwasanaethau'n dod i ben, gan sicrhau cyfathrebu clir ac amserol trwy gyfarfodydd cyhoeddus, ymgysylltu uniongyrchol, a sianeli cynhwysol eraill.

Wrth i'r cynlluniau gweithredu gael eu cwblhau ar gyfer meysydd lle caiff gwasanaethau eu lleihau, bydd y strategaeth yn cael ei mireinio ymhellach i fynd i'r afael ag anghenion sy'n dod i'r amlwg ac adborth.

Mae ein dull gweithredu yn tanlinellu ein hymrwymiad i dryloywder a chydweithio, gan sicrhau bod yr holl grwpiau yr effeithir arnynt yn deall yn glir y rhesymau y tu ôl i'r newidiadau, sut y bydd gwasanaethau'n datblygu, a'r camau sy'n cael eu cymryd i gefnogi trosglwyddiad llyfn.

## Argymhelliad 6. Dylai CNC roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law am fanylion a chanlyniad ei gais buddsoddi i arbed.

Cyflwynwyd dau gynnig penodol i Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2024:

1. Rhesymoli seilwaith
2. Gwasanaethau Cwsmeriaid y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau – Modiwl Morol.

Ers hynny, rydym wedi cael cadarnhad o gyllid ar gyfer y ddau gais hynny a chyllid pellach i helpu gyda phwysau cyflog a chwyddiant. Rydym yn disgwyl cadarnhad ffurfiol yn y flwyddyn newydd.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu'n ddiweddar at Lywodraeth Cymru i esbonio'r angen am fuddsoddiad pellach yn y flwyddyn ariannol nesaf, a fydd yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflwyno cynigion pellach.

## Argymhelliad 7. Dylai CNC adrodd i'r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf ar statws ei ganolfannau ymwelwyr ac amlinellu cynlluniau i barhau â'u gweithrediad.

Yn ei gyfarfod ar 5 Tachwedd 2024, cytunodd Bwrdd CNC i weithredu'r Achos dros Newid lle cadarnhawyd na fydd CNC bellach yn gweithredu'r darpariaethau arlwyo a manwerthu yn ein canolfannau ymwelwyr ym Mwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas.
Mae CNC yn cydnabod teimladau cryf y cyhoedd ynghylch y Canolfannau Ymwelwyr ac y bydd y penderfyniad i atal y gwasanaethau hyn yn siomedig i lawer. Bydd gwasanaethau arlwyo a manwerthu yn y tri safle, Bwlch Nant yr Arian, Coed y Brenin ac Ynyslas, yn parhau ar agor tan 31 Mawrth 2025, ac wedi hynny byddant yn cau. Bydd y safleoedd yn parhau i fod ar agor ar gyfer mynediad hamdden, megis cerdded a beicio a bydd gwasanaethau megis mannau chwarae, meysydd parcio a thoiledau hefyd yn parhau i fod ar gael.

Hoffem hefyd egluro nad yw staff ein Canolfan Ymwelwyr yn gyfrifol am reoli'r tir yn y canolfannau ac o'u cwmpas. Cyfrifoldeb ein timau rheoli tir yw hyn. Felly, ni fydd unrhyw newid i'r modd y caiff llwybrau a mynediad eu rheoli nac o ran cynnal a rheoli bywyd gwyllt a'r amgylchedd naturiol.

Ein blaenoriaeth yw dod o hyd i bartneriaid a all weithio gyda ni i wneud Bwlch Nant yr Arian a Choed y Brenin yn fannau ffyniannus sydd â dyfodol cynaliadwy hirdymor. Mae sicrhau ein bod yn dod o hyd i'r partner cywir ar gyfer y safle cywir yn hanfodol ond er mwyn gwneud hyn mae angen amser arnom i wneud yn siŵr ein bod yn darparu'r gwerth mwyaf i ddefnyddwyr, busnesau lleol a chymunedau.

Yn y cyfamser, rydym yn archwilio atebion dros dro i leihau aflonyddwch a pharhau i ddarparu gwasanaethau gwerthfawr i ymwelwyr.

Mae Ynyslas yn unigryw gan ei bod yn rhan o Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) Dyfi ac felly mae ganddi anghenion a gofynion statudol penodol, gyda gwarchod y GNG yn flaenoriaeth. Bydd hyn yn cynnwys cadw swyddfa ar y safle ar gyfer staff rheoli tir. Felly ni fydd Canolfan Ymwelwyr Ynyslas yn cael ei chynnig yn fasnachol a bydd yn cael ei chyflwyno at ddefnydd y gymuned yn unig drwy Ddatganiadau o Ddiddordeb. Cysylltwyd â'r rhai sydd wedi cofrestru diddordeb yn Ynyslas drwy e-bost i roi gwybod bod y broses Mynegi Diddordeb ar agor a bod y ffurflen gais ar gael i'w lawrlwytho drwy'r Hyb Ymgynghori ar ein gwefan.

Rydym eisoes wedi derbyn diddordeb yng Nghoed y Brenin a Bwlch Nant yr Arian. Fodd bynnag, i sicrhau tegwch a chydraddoldeb, nid oes unrhyw gynigion yn cael eu hystyried cyn yr ymarfer tendro cyhoeddus a fydd yn dechrau yn 2025. Cynhelir y broses drwy wefan GwerthwchiGymru a gall unrhyw un sydd â diddordeb gofrestru ar y platfform cyn i'r broses ddechrau. Byddwn yn darparu mwy o fanylion am y broses hon, gan gynnwys y dyddiad cychwyn, maes o law.

Mae manylion y rhai sydd eisoes wedi cysylltu â ni wedi cael eu hychwanegu at restr bostio o bartïon sydd â diddordeb, fel eu bod yn derbyn manylion y broses dendro pan fyddant ar gael.

Er nad yw'r ymarfer tendro cyhoeddus wedi dechrau, rydym wedi bod yn cyfarfod yn anffurfiol â phartïon sydd â diddordeb ac wedi trefnu sesiynau galw heibio ar gyfer pob safle, ac mae'r manylion ar gael ar yr Hyb Ymgynghori. I gadarnhau, nid oes unrhyw drafodaethau ffurfiol wedi'u cynnal. Mae pob cyfarfod wedi bod yn anffurfiol ac heb ymrwymiadau er mwyn helpu i nodi a yw'r tendr yn iawn iddyn nhw.

Cafodd sesiynau ymgysylltu cyhoeddus ar gyfer pob un o'n safleoedd i ddiweddaru aelodau'r gymuned a rhanddeiliaid ar ddyfodol canolfannau ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian, Ynyslas a Choed y Brenin eu cynnal ddiwedd mis Tachwedd.

Daeth nifer dda o bobl i'r sesiynau hyn a chafodd CNC y cyfle pwysig i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau i fanwerthu ac arlwyo yn ein Canolfannau Ymwelwyr, yn ogystal ag ateb cwestiynau a phryderon penodol gan y cyhoedd.

Yn dilyn y rhain, rydym wedi cynhyrchu set o Gwestiynau Cyffredin a fydd ar gael i'r cyhoedd eu gweld ar-lein drwy ein Hyb Ymgynghori. Byddwn yn parhau i ddiweddaru'r Cwestiynau Cyffredin wrth i ni weithio drwy effaith yr Achos dros Newid ar Ganolfannau Ymwelwyr. Gellir cyfeirio unrhyw gwestiynau neu ymholiadau hefyd at flwch post pwrpasol ymgysylltu.masnachol@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk.

29th November 2024

**Open call for evidence: Welsh Government Budget 2025/26**

Thank you for the opportunity to contribute to your open call for evidence in advance of the 2025/26 draft budget.

**Walking and our path network**

The Ramblers is Britain's largest walking charity, dedicated to ensuring that everyone can benefit from walking in nature. We work to protect, improve and expand opportunities for people to access the outdoors on foot because we know how important this is for individuals and wider society.

Good quality green infrastructure and accessible green spaces are part of the preventative solution for improving people's physical and mental health and can engage people in tackling the nature and climate emergencies. Our walking infrastructure is also crucial to our economic wellbeing, attracting visitors and holidaymakers to all corners of Wales.

***We believe Welsh government needs to make a more holistic and meaningful investment in public access and walking infrastructure.***

We would urge the committee to scrutinise whether the Welsh Government is providing appropriate and coherent support for the recreational and leisure walking network in Wales, given its important to the nation's health and visitor economy.

**The need for investment**

Research by the New Economics Foundation for the Ramblers found that while the public enjoy legal rights to access nature through the public rights of way network, open access land and green spaces, in practice the infrastructure which enables the exercise of these rights has been neglected, provision is variable within and between communities and many people are unable to make use of opportunities:

Ramblers Cymru
3 Coopers Yard, Curran Road, Cardiff CF10 5NB
020 3961 3310 | ramblerscymru@ramblers.org.uk | **ramblers.org.uk**

The Ramblers' Association is a registered charity (England & Wales no 1093577, Scotland no SC039799) and a company limited by guarantee, registered in England & Wales (no 4458492). Registered office: The Ramblers, c/o Bates Wells, 10 Queen St Place, London EC4R 1BE

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

Barriers include:

- Inadequate provision
- Inaccessible structures (like stiles or narrow gates)
- Poor quality paths and signage,
- A lack of publicly available information, and a lack of confidence. For example our recent YouGov polling found that 1 in 4 people simply do not know where they can walk, rising to over 1 in 3 for disabled people

**The Welsh Government Budget**

We need the Welsh Government to provide a budget which:

1. **Retains and increases the Access Improvement Grant**

The Access Improvement Grant from Welsh Government to Local Authorities and National Park Authorities it a vital investment in our access infrastructure. This fund should be retained and enhanced.

Over recent years it has remained at low levels - just £2m 2024/25. While welcome, this equates to just 64p per person in Wales, which is not reflective of the health, wellbeing and economic benefits investment in quality access can bring. Our 2023 research report[i] identified our path networks as having an estimated wellbeing value of over £33 per person in England and Wales. Our recent analysis of tourism day visits estimates that £962m was spent by visitors on walking trips in Wales, and £425m by overnight walkers, much of this in rural areas.

2. **Supports programmes and funding mechanisms to educate and engage people in the outdoors, particularly those facing the most barriers**

For example, our Paths to Wellbeing project had great successes in reconnecting people in 18 communities across Wales to their local paths, making their walking more accessible and enhancing surrounding nature. The community-led, collaborative approach has engendered a new sense of

Ramblers Cymru
3 Coopers Yard, Curran Road, Cardiff CF10 5NB
020 3961 3310 | ramblerscymru@ramblers.org.uk | ramblers.org.uk

The Ramblers' Association is a registered charity (England & Wales no 1093577, Scotland no SC039799) and a company limited by guarantee, registered in England & Wales (no 4458492).
Registered office: The Ramblers, c/o Bates Wells, 10 Queen St Place, London EC4R 1BE.
Registered with FUNDRAISING REGULATOR

community ownership and pride in local surroundings. Its positive impact on participants wellbeing and its legacy of practical improvements, has demonstrated both an appetite for engagement with the outdoors and the benefits this engagement brings. Welsh government should be seeking funding mechanisms to support pan-Wales community activity which enhances people's wellbeing.

3. **Provides scope for long-awaited Access reforms to be progressed**

It is now over 10 years since the then Minister, John Griffiths MS, announced a review of access legislation to "secure better access to the outdoors for recreation, modernise and simplify the current regulatory framework, and provide clarity and certainty over where people can go and what they can do there".

Regrettably, despite several consultations and the convening of wide-ranging expert groups, little progress on reforms has been made. This has meant that local authorities continue to be frustrated by costly and lengthy processes, and public access is frustrated by uncertainty and a lack of joined up information.

The 2025/26 budget should provide resources to progress the Access Reform agenda (especially the improvement of public information, and technical reforms to Rights of way laws) which will affect people's access to nature, and the delivery of public access duties by local authorities.

4. **Supports NRW to deliver its public access and public education responsibilities**

Recent cuts at NRW have been of great concern, and the impact on the management of their recreational activities remains uncertain. We are greatly concerned at the potential impact on their duties to promote responsible access and educate the general public on how to enjoy the outdoors safely and appropriately.

**Ramblers Cymru**
3 Coopers Yard, Curran Road, Cardiff CF10 5NB
020 3961 3310 | ramblerscymru@ramblers.org.uk | **ramblers.org.uk**

The Ramblers' Association is a registered charity (England & Wales no 1093577, Scotland no SC039799) and a company limited by guarantee, registered in England & Wales (no 4458492). Registered office: The Ramblers, c/o Bates Wells, 10 Queen St Place, London EC4R 1BE

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

If you require any further information or clarification, please do not hesitate to get in touch.

Kind regards,



Rebecca Brough
**Policy and Public Affairs Manager**
**Ramblers Cymru**

---

[i] https://www.ramblers.org.uk/news/ramblers-research-reveals-wellbeing-value-our-paths

**Ramblers Cymru**
3 Coopers Yard, Curran Road, Cardiff CF10 5NB
020 3961 3310 | ramblerscymru@ramblers.org.uk | **ramblers.org.uk**

The Ramblers' Association is a registered charity (England & Wales no 1093577, Scotland no SC039799) and a company limited by guarantee, registered in England & Wales (no 4458492). Registered office: The Ramblers, c/o Bates Wells, 10 Queen St Place, London EC4R 1BE.

Registered with FUNDRAISING REGULATOR

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

7 Ionawr 2025

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Rwy'n ysgrifennu atoch ynghylch ein presenoldeb mewn Pwyllgor yn ddiweddar ac i roi diweddariad i chi o'n taith o amgylch Depo Ffynnon Taf ar 7 Tachwedd. Fel i mi addo, gweler isod yr ymrwymiadau dilynol:

**Argymhelliad 6;**

Fel rhan o'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 - 2028 byddwn yn cwblhau archwiliad cyflog cyfartal ar draws y busnes, yn parhau i adolygu a gweithredu ar leihau ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ac yn ceisio nodi ac osgoi bylchau cyflog ychwanegol yn y dyfodol. Byddwn yn rhoi prosesau recriwtio cadarn ar waith ar y cyd a sefydliadau cymunedol er mwyn gwella lefelau amrywiaeth o fewn y busnes. Byddwn hefyd yn sicrhau bod amrywiaeth o hyfforddiant EDI, gan gynnwys hyfforddiant gwrth-hiliaeth, yn cael ei gyflwyno ar draws y busnes, i greu gweithlu gwybodus ac ymwybodol, gan sicrhau bod y rhai sydd o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a/neu grwpiau ar y cyrion yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu ac yn cael ymdeimlad o berthyn ymhlith eu cyfoedion a'u cydweithwyr.

Yn ogystal, byddwn yn parhau i fuddsoddi a chefnogi amrywiaeth o gynlluniau fel:

- Rhaglen LEAD Menywod mewn Trafnidiaeth
- Rhaglen mentora Ymlaen Llaw Menywod mewn Trafnidiaeth
- Cynllun mentora Symud Ymlaen Menywod mewn Trafnidiaeth
- Lansio ein rhaglen fewnol Menywod mewn Arweinyddiaeth yn 2025

Bydd Hwb Menywod mewn Trafnidiaeth Cymru hefyd yn parhau â'i waith yn cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau i rannu arfer da, gwybodaeth, ymgysylltu â menywod ar draws y sector trafnidiaeth a thyfu nifer y cynghreiriad gwrywaidd sy'n ymwneud â'r gwaith a wneir.

Mae'r rhaglenni hyn yn helpu menywod fagu hyder a chyflawni eu potensial llawn. Hefyd, dengys ein hystadegau datblygu mewnol bod mwy o fenywod o ran canran yn debygol o ymgymryd â chyrsiau galwedigaethol a chymwysterau.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 11:**

Ym mis Tachwedd, dechreuom roi ein Fflyd Newydd Sbon ar waith, sef ein trenau Dosbarth 756, a hynny ar hyd Lein Aberdâr a Merthyr, ac ar hyd lein Treherbert, o ddydd Llun 6 Ionawr 2025. Mae hwn yn uwchraddiad i'w groesawu ar lein TAM, a bydd rhagor o drenau Dosbarth 756 yn cael eu rhoi ar waith ar y leiniau hyn dros yr wythnosau nesaf.

Bellach, mae unedau newydd ar waith ar bron pob un o'r leiniau, gyda rhai leiniau fel yr un rhwng Wrecsam a Bidston neu Lein Dyffryn Conwy yn croesawu gwasanaeth o'r newydd. O ddydd Sul 15 Rhagfyr 2024, bydd 100% o'r teithiau ar Ganghennau Gogledd Cymru yn cael eu gwasanaethu gan y fflyd newydd a thros 80% o deithiau yn cael eu gwasanaethu ar Brif Lein Gogledd Cymru gan ein fflyd newydd o drenau hefyd. Felly, y darlun cyffredinol yw y bydd ein fflyd newydd yn gwasanaethu 87% o'r teithiau yng Ngogledd Cymru ers lansio amserlen Rhagfyr 2024.

Dyma newidiadau arwyddocaol eraill i'r amserlen allweddol:

- Llawer mwy o wasanaethau yn galw ym Mhont-y-clun, Llanharan a Phencoed - cynnydd yng nghyfanswm y gwasanaethau dyddiol o 38 i 59. Cynnydd o 55%.
- Cynyddu gwasanaethau Swanline yn ystod oriau brig i 1 trên yr awr (Baglan, Llansawel, Sgiwen a Llansamlet).
- Dau wasanaeth ychwanegol i Aberdaugleddau a mwy o gyfleoedd i gyrraedd Harbwr Abergwaun gan gael gwared ar y bwlch chwe awr sy'n bodoli ar hyn o bryd lle nad oes trenau yn rhedeg.
- Y trên olaf o Gaerdydd i Faesteg trwy Ben-y-bont yn rhedeg yn hwyrach - am 11:24pm.
- Y trên olaf o Abertawe i Gaerdydd fydd 11:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.
- Ymadawiadau mwy cyson gyda mwy o drenau yn gadael ar yr un pryd heibio pob awr.
- Bydd gwasanaethau Maesteg i gyfeiriad Caerdydd nawr yn rhedeg yr holl ffordd i Lyn Ebwy, yn hytrach na Cheltenham Spa.
- Bydd gwasanaethau Cheltenham Spa yn dechrau ac yn gorffen yng Nghaerdydd Canolog.
- Ysgogi'r newidiadau a ddaeth yn sgil Adolygu'r Amserlenni Strategol ar linellau Cambrian a Chalon Cymru.
- Cyflwyno trenau Dosbarth 756 newydd sbon ar Linellau Craidd y Cymoedd (gan ddechrau ym mis Tachwedd) a threnau teithio llesol pwrpasol gyda mwy o le i feiciau, ailwampiad llawn a lifrai pwrpasol ar gyfer trenau lein Calon Cymru.
- Rhai newidiadau i'r patrwm galw ar rai gwasanaethau rhwng Caerdydd a Manceinion Piccadilly, i gyflymu rhai trenau a chyflwyno patrwm safonol yn yr amserlen.
- Bydd rhai gwasanaethau lleol rhwng Gorllewin Cymru a Chaerdydd nawr yn defnyddio Platfform 0 yng Nghaerdydd Canolog.
- Bydd Canghennau Gogledd Cymru yn parhau i ddefnyddio'r fflyd newydd ar 100% o deithiau ac 80% o deithiau ar hyd Prif Lein Gogledd Cymru yn cael eu gwneud gyda'r fflyd newydd. Felly, bydd dros 87% o deithiau ar fflyd newydd ar gyfer gwasanaethau Gogledd Cymru o amserlen Rhagfyr 2024.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Mae'r newidiadau hyn wedi cael eu disgrifio fel y "newid amserlen prif linell mwyaf arwyddocaol mewn cenhedlaeth" ac mae wedi cymryd pedair blynedd i'w datblygu.

Fodd bynnag, mae'n wir dweud ein bod yn dal i brofi oedi gan ein gweithgynhyrchwyr, Stadler a CAF ac mae'n bwysig gweithio mewn partneriaeth â nhw a'i
Dwyn i gyfrif ym mhob ffordd bosibl. Yn ddiweddar iawn, euthum ar ymweliad byr i Sbaen i gwrdd â Phrif Swyddog Gweithredol CAF a phwyso arnynt ymhellach i gludo'r fflyd.

Felly, gyda'n fflyd a'n teithiau presennol ar drenau newydd, rydym wedi cyrraedd tua 70-75%, ond bydd hyn yn cynyddu gyda mwy o argaeledd y trenau Dosbarth 756 ac o ganlyniad, eu rhoi ar waith ar Lein Coryton yn y Gwanwyn/yn gynnar yn Haf 2025.

**Argymhelliad 12**

Y llynedd, fe wnaethon ni dreulio amser yn adolygu ein hymrwymiadau amserlenni rheilffyrdd tymor hwy i sicrhau eu bod yn diwallu gofynion cwsmeriaid yn y ffordd orau ac yn addas ar gyfer anghenion teithwyr. Ym mis Hydref gwnaethom rannu'r gwaith hwn gydag Aelodau yn ogystal ag ar-lein gyda'r cyhoedd. Adolygiad Amserlen y Dyfodol TrC | Dweud eich dweud gan Trafnidiaeth Cymru

Yn sgil pandemig Covid 19, mae'r ffordd y mae pobl yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer gwaith, addysg a hamdden wedi newid yn sylweddol. Rydyn ni wedi newid hefyd, gan ddod yn rheilffordd gyhoeddus yng ngwir ystyr y gair. Mae bron pob gwasanaeth a chynigion yn gofyn am ryw fath o gymhorthdal cyhoeddus ar adeg lle mae cyllidebau'n dynn. Caiff pob ceiniog a gymerwn ar unrhyw wasanaeth sydd uwchlaw a thu hwnt i'n costau gweithredu ei ddychwelyd er mwyn lleihau'r cymhorthdal a dderbyniwn. Fel gweithredwr cyfrifol, mae'n hanfodol ein bod yn cydbwyso'r angen am wasanaeth rheolaidd, cadarn a dibynadwy o fewn ein cyllidebau ac yn erbyn ein targedau i ddarparu trafnidiaeth fwy cynaliadwy.

Rydym wedi datblygu amserlen y dyfodol fel ei bod yn cyd-fynd yn well ag arferion teithio cyfredol a gofynion cwsmeriaid, gan ddod yn weithredwr gwirioneddol aml-ddull. Golyga hynny ein bod yn edrych ar y galw sydd am wasanaethau a chyfleoedd i dyfu ar draws y rhwydwaith bysiau a threnau gyda'i gilydd. Ar y rheilffordd, ni fydd rhai llwybrau yn gweld fawr o newid, bydd eraill yn gweld patrymau galw ychydig yn wahanol wedi'u targedu'n well at anghenion cyfredol, ond mewn meysydd eraill, bu'n rhaid gwneud rhai penderfyniadau anodd i sicrhau ein bod yn darparu mwy o le lle mae ei angen fwyaf, yn tyfu refeniw ac yn y pen draw, yn lleihau cymhorthdal cyhoeddus. Mae adborth rheolaidd gan randdeiliaid ar ein hamserlenni wedi cyfrannu at hyn, ochr yn ochr â nifer ein teithwyr ac ystyriaeth fanwl o opsiynau teithio amgen.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Argymhelliad 14**

Rydym wedi cefnogi dros 1000 o ddigwyddiadau mawr a lleol ar draws ein rhwydwaith cyfan, ac rydym wedi llwyddo i gludo bron i 500,000 o gefnogwyr i mewn ac allan o Gaerdydd (gan gynnwys Pontypridd ar gyfer yr Eisteddfod) eleni yn unig, sef:

- 100,000 o gefnogwyr ar gyfer y Chwe Gwlad
- 160,000 o gefnogwyr cerddoriaeth ar gyfer gigs cerddoriaeth amrywiol yn Stadiwm Principality
- 100,000 o bobl i mewn ac allan o'r Eisteddfod Genedlaethol
- 130,000 o gefnogwyr rygbi a phêl-droed dros gyfnod yr Hydref

**Argymhelliad 20**

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae TrC wedi bod yn gweithio'n agosach fyth gydag Awdurdodau Lleol a Chynghorau Cymuned i hyrwyddo gallu technegol swyddogion yng Nghymru yn gyntaf (TrC ac Awdurdodau Lleol) i ddatblygu a chyflwyno cynlluniau teithio llesol da ac yn ail, i ddeall yn well sut i werthuso eu heffeithiolrwydd ac yn wir sut i annog gwell defnydd a chymryd rhan fel rhan o rwydwaith trafnidiaeth aml-ddull.

Ar hyn o bryd, mae'r ffocws ar weithio mewn partneriaeth â Chynghorau Corfforaethol ac Awdurdodau Lleol i gefnogi swyddogion i gyflwyno a dylunio cynlluniau rhagorol fel rhan o gynllun trafnidiaeth rhanbarthol cyflawn. Mae'r pwyslais ar gefnogi a galluogi a darparu gwasanaeth i swyddogion awdurdodau lleol yn hytrach nag mewn rôl orfodi.

Dros y 18 mis diwethaf, mae TrC wedi datblygu capasiti am y tro cyntaf i gefnogi cynllun dylunio, gan gynnig y gallu i sicrhau gwerth llawer uwch am arian i Gymru yn y maes hwn wrth i ni symud ymlaen.

Yn gywir,

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

14 Ionawr 2025

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Ysgrifennaf atoch yn dilyn y gwaith craffu cyffredinol a wnaeth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru. Yn ystod y sesiwn, gofynnodd y pwyllgor nifer o gwestiynau ynghylch materion gweithredol ar gyfer Trafnidiaeth Cymru a dyma ddarparu diweddariad ysgrifenedig i chi ynghylch y rhain.

**Unedau Aerdymheru ar ein trenau Dosbarth 197**

Yn gyntaf, gofynnwyd am ddiweddariad yn dilyn problemau gyda'r unedau aerdymheru newydd ar ein trenau 197 oedd yn teithio ar hyd lein y Gororau yn gynharach eleni. Rwy'n gwerthfawrogi, yn ystod misoedd yr haf, y gall fod yn anghyfforddus teithio ar drên lle nad yw'r system aerdymheru yn gweithio fel y dylai.

Felly, rydym bellach wedi cwblhau diweddariad i'r feddalwedd ar draws ein fflyd 197 ac yn ymchwilio i welliannau meddalwedd pellach a fydd yn darparu lefel uwch o awtomeiddio. Yn ogystal â diweddaru'r feddalwedd, rydym ar hyn o bryd yn edrych ar y posibilrwydd o osod haen adlewyrchu gwres ar ffenestri'r trenau 197 er mwyn lliniaru'r broblem hon ymhellach.

**Diweddariad ynghylch Targed ein Fflyd**

Yn ystod y sesiwn, gofynnwyd hefyd i Ysgrifennydd y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am dargedau fflyd diweddaraf TrC. Rydym yn buddsoddi £800 miliwn mewn fflyd o drenau newydd sbon ar gyfer rhwydwaith Cymru a'r Gororau, ac mae gan bron bob llinell unedau newydd yn gweithredu arnynt erbyn hyn, gyda rhai llinellau fel llinell Wrecsam - Bidston neu Linell Dyffryn Conwy wedi cael trenau newydd yn gwasanaethu ar bob gwasanaeth.

Yn sgil y newid a wnaed i'r amserlen a gyhoeddwyd ar ddydd Sul 15 Rhagfyr 2024, bydd 100% o'r teithiau ar Ganghennau Gogledd Cymru yn cael eu gwasanaethu gan y fflyd newydd a thros 80% o deithiau yn cael eu gwasanaethu ar Brif Lein Gogledd Cymru gan ein fflyd newydd o drenau. Felly, y darlun cyffredinol yw y bydd ein fflyd newydd yn gwasanaethu 87% o'r teithiau yng Ngogledd Cymru yn dilyn cyflwyno'r amserlen newydd ym mis Rhagfyr 2024.

Mae Trafnidiaeth Cymru yn eiddo i Lywodraeth Cymru
Transport for Wales is owned by the Welsh Government

Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant. Cofrestrwyd yng Nghymru. Rhif Cwmni 09476013. Cyfeiriad Swyddfa Gofrestredig: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH
A Company Limited by Guarantee. Registered in Wales. Company No. 09476013. Registered Office Address: 3 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Disgwyliwn y bydd pob fflyd newydd, ar wahân i'r trenau Dosbarth 398, wedi cael eu cludo i ni erbyn diwedd 2025, gyda'r holl unedau yn cael eu rhoi ar waith erbyn diwedd 2026 (mae hyn yn amodol ar rywfaint o waith uwchraddio ar linell y Cambrian). Mae'r tabl isod yn manylu ar sawl uned newydd a roddwyd ar waith hyd yma:

| Trenau Newydd | Nifer ar waith |
|---|---|
| Dosbarth 197 | 58 allan o 77 |
| Dosbarth 231 | 11 allan o 11 |
| Dosbarth 756 | 10 allan o 24 (cyflwyno trenau gam wrth gam) |
| Dosbarth 398 | 0 allan o 36 |
| Trenau Mark 4 | 7 allan o 8 |
| Dosbarth 153 | 16 allan o 18 |
| Dosbarth 230 | 5 allan o 5 |

Fodd bynnag, mae'n wir dweud ein bod yn dal i brofi oedi gan ein gweithgynhyrchwyr, Stadler a CAF ac mae'n bwysig gweithio mewn partneriaeth â nhw ac i'w dal i gyfrif ym mhob ffordd bosibl. Yn ddiweddar, ymwelais â Sbaen i gwrdd â Phrif Swyddog Gweithredol CAF i'w roi pwysau ychwanegol arnyn nhw ynghylch cludo ein trenau.

Felly, y sefyllfa o ran y swm cyfanredol ar hyn o bryd yw bod tua 70-75% o deithiau yn cael eu gwneud ar ein trenau newydd, ond bydd hyn yn cynyddu gyda mwy o argaeledd y trenau Dosbarth 756 ac o ganlyniad, eu rhoi ar waith ar Lein Coryton yn y Gwanwyn/yn gynnar yn Haf 2025.

**Talu am docyn gydag arian parod**

Yn olaf, o ran deiseb gan y Senedd ynghylch taliadau heb arian a arweiniwyd gan gynrychiolwyr o Mencap, gofynnwyd am ddiweddariad ynghylch dull TrC o dderbyn taliadau arian parod am docynnau trên ac er mwyn gallu talu am luniaeth ar drên.

Os hoffai cwsmer brynu tocyn gydag arian parod, yna gallant wneud hynny mewn swyddfa docynnau, cyn belled a bod un yn yr orsaf. Os yw'r swyddfa docynnau ar gau neu os yw'r cwsmer yn teithio o orsaf heb staff, gallant ddefnyddio'r peiriant hunanwasanaeth i gael 'taleb addo talu' Addewid i Daluy gellir ei gyfnewid am docyn cyn gynted â phosibl.

Rydym yn cydnabod na all pawb ddefnyddio ein peiriannau hunanwasanaeth. Felly, os mai dyma'r unig ffordd o brynu tocyn yn yr orsaf y mae'r cwsmer yn teithio ohoni ac na allant ddefnyddio'r peiriant, gallan nhw brynu tocyn ar y trên. O dan yr amgylchiadau hyn, rhoddir disgresiwn i'n tîm Diogelu Refeniw beidio â chodi tâl cosb a byddant naill ai'n codi'r pris sengl llawn neu'n codi unrhyw bris gostyngol perthnasol fel y bo'n briodol.

Gall cwsmeriaid hefyd brynu tocynnau gydag arian parod fel rhan o'n partneriaeth â Payzone, lle mae modd prynu rhai tocynnau trên mewn siopau sydd wedi'u lleoli mewn gorsafoedd cyfagos. Mae rhestr o'r manwerthwyr Payzone sy'n rhan o'r cynllun ar gael yma: *https://tfw.wales/ways-to-travel/rail/buy-tickets/ways-to-buy/payzone*

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Taliadau am luniaeth ar ein trenau gydag arian parod**

O ran defnyddio arian parod i dalu am luniaeth ac ein trenau, nid yw TrC, ynghyd â sawl Cwmni Gweithredu Trenau eraill, gan gynnwys Great Western a London North Eastern Railway, yn derbyn arian parod. Gwnaed y penderfyniad hwn yn sgil Covid-19, a chymdeithas yn symud i ffwrdd o ddefnyddio arian parod i wneud taliadau. Mae hyn yn fwy diogel i'n cydweithwyr arlwyo gan nad ydynt bellach yn ymdrin ag unrhyw arian parod. Mae hyn hefyd yn dileu'r risgiau a'r costau sy'n gysylltiedig â thrin a bancio arian parod.

Rwy'n gobeithio y bydd cynnwys y llythyr hwn yn ateb y cwestiynau a godwyd yn ystod y sesiwn graffu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar Ysgrifennydd y Cabinet. Os oes gennych unrhyw gwestiynau gweithredol pellach ar gyfer TrC, yna mae croeso mawr i chi gysylltu.

Yn gywir,

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive

**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

Fforwm y Cadeiryddion
Drwy e-bost

7 Ionawr 2025

Annwyl Gadeiryddion,

**Cynrychiolaeth ar gyrff rhyngseneddol**


Yn dilyn y drafodaeth yng nghyfarfod Fforwm y Cadeiryddion ar 2 Rhagfyr, dyma ysgrifennu i gadarnhau'r hyn a benderfynwyd ynghylch cynrychiolaeth y Senedd ar y Fforwm Rhyngseneddol a Chynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE. Mae'r Senedd yn gallu enwebu dau Aelod ar gyfer pob grŵp. Cytunodd y Cadeiryddion:

- Dylai cynrychiolaeth y Senedd ar y ddau gorff barhau i fod yn gysylltiedig â chylchoedd gwaith pwyllgorau;
- Dylai'r Aelodau a enwebir fod yn gadeiryddion ar y pwyllgorau perthnasol ym mhob achos, ond gyda'r gallu parhaus i'r cadeiryddion enwebu eilyddion o'u pwyllgorau i fynd i gyfarfodydd yn ôl yr angen;
- Bod parhad cynrychiolaeth yn bwysig, lle gellir cynnal hynny;
- Byddai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad (DCC), Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith (NHAS), Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (Pwyllgor yr Economi) a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (y Pwyllgor Diwylliant) yn cynrychioli'r Senedd ar y ddau gorff, gyda chadeiryddion y pwyllgorau hynny y tu allan i gyfarfod Fforwm y Cadeiryddion yn penderfynu ar ddyraniad y rolau.

Drwy drafodaeth y tu allan i'r Fforwm, cytunwyd ar yr enwebiadau a ganlyn:

- Y Fforwm Rhyngseneddol: Cadeiryddion Pwyllgorau DCC ac NHAS.
- Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE: Cadeiryddion Pwyllgor yr Economi a'r Pwyllgor Diwylliant.

Yn gywir,



Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Llywydd
Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion

**Jane Hutt AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip**
**Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH/PO/3/25

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

SeneddDCC@senedd.cymru

9 Ionawr 2025

Annwyl Mike,

**Y Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Cyfarfodydd Rhynglywodraethol i ddod**

Rwy'n ysgrifennu yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i'ch hysbysu imi fynd i ail gyfarfod Grŵp y Pedair Gwlad am Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth y DU. Fel imi nodi yn fy llythyr atoch ym mis Tachwedd, pwrpas y grŵp yw cynnwys yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn y gwaith o ddatblygu Strategaeth ar Dlodi Plant ar gyfer y DU gyfan. Bydd y grŵp yn rhoi cyfle i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon lywio'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ar gyfer y DU gyfan, a sicrhau bod y strategaeth arfaethedig yn ategu'r strategaethau presennol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon sydd eisoes ar waith.

Cafodd y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr, ei gadeirio gan Alison McGovern AS - Gweinidog Cyflogaeth y DU. Hefyd yn bresennol roedd Shirley-Anne Somerville ASA - Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, Llywodraeth yr Alban, a Gordon Lyons ACD, Gweinidog Cymunedau Cynulliad Gogledd Iwerddon.

Canolbwyntiodd y cyfarfod ar y meysydd blaenoriaeth ar gyfer strategaeth y DU, gan ystyried trefniadau ar gyfer cyfarfodydd y Tasglu a Grŵp y Pedair Gwlad yn y dyfodol. Yn ystod y cyfarfod hwn, amlygais gwestiynau allweddol Llywodraeth Cymru ar dariffau cymdeithasol ynni a Chyfraddau Lwfans Tai Lleol. Tynnais sylw hefyd at bwysigrwydd gofal plant fel rhan o'r hyn y gallwn ei wneud i helpu pobl i gael llwybrau allan o dlodi a manteisio ar gyfleoedd i gael sgiliau a chyflogaeth.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt @gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig; y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,



**Jane Hutt AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip
Cabinet Secretary for Social Justice, Trefnydd and Chief Whip

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/10547/24

Llŷr Gruffudd AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

10 Ionawr 2025

Annwyl Llŷr,

Cyfeiriaf at fy llythyr atoch dyddiedig 23 Rhagfyr 2024 Hoffwn hysbysu'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion) ac Amodau Ffytoiechydol (Diwygio) 2025 ('y Rheoliadau'). Rwyf wedi gosod Datganiad Ysgrifenedig sydd ar gael yma.

Mae'r Rheoliadau yn gymwys o ran Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'r Rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol a chawsant eu gosod gerbron Senedd y Deyrnas Unedig ar 8 Ionawr 2025. Y dyddiad cychwyn yw 30 Ionawr 2025.

Er mai egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw y dylai'r gyfraith sy'n ymwneud â materion datganoledig gael ei gwneud gan Weinidogion Cymru, y tro hwn ystyrir ei bod yn briodol i'r Rheoliadau gael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â maes datganoledig, fodd bynnag, maent yn effeithio ar fioddiogelwch Cymru, Lloegr a'r Alban – mater sydd, yn draddodiadol, wedi cael ei ystyried ar y cyd. Nid yw plâu a chlefydau planhigion eraill yn parchu ffiniau rhwng gwledydd. Mae llawer o'r Rheoliadau yn ymwneud â mewnforio planhigion a chynhyrchion planhigion. Mae'r rhan fwyaf o'r nwyddau hyn sy'n dod i mewn i Gymru yn dod drwy borthladdoedd Lloegr. Gallai cyflwyno rheoliadau ar wahân yng Nghymru a Lloegr greu baich ychwanegol ar yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA), ac ar fusnesau, masnachwyr a thyfwyr. Mae rheoleiddio ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban yn cynorthwyo'r rhanddeiliaid hynny y mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â'r gofynion o fewn y ddeddfwriaeth i gynnal ein bioddiogelwch.

Nid oes gwahaniaeth polisi rhwng Llywodraeth Cymru a'r DU ynghylch y mater hwn ac mae'r Rheoliadau yn diwygio deddfwriaeth na chafodd ei gwneud yn ddwyieithog.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwyf wedi anfon llythyr tebyg at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Huw Irranca Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Eitem 4.9


**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

—

**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565


Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

14 Ionawr 2025

Annwyl Rebecca,

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad)

Yn ein cyfarfod ar 13 Ionawr 2025, fe wnaethom drafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) Llywodraeth Cymru ar y Bil Data (Defnydd a Mynediad), a osodwyd gerbron y Senedd gennych ar 2 Ionawr.

Mae gennym nifer o gwestiynau mewn perthynas â'r Memorandwm hwn a byddem yn ddiolchgar felly pe baech ar gael i ymddangos gerbron y Pwyllgor yn y cnawd ar 3 Chwefror er mwyn helpu i lywio ein gwaith craffu.

Byddem yn ddiolchgar pe gallai eich swyddogion gysylltu â'r tîm clercio i wneud y trefniadau perthnasol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol; Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig; Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith; a'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Yn gywir,

Mike Hedges
Cadeirydd

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon